# Sut olwg sydd ar gymorth cymheiriaid digidol da?

## Pecyn Cymorth Hyfforddiant Cymorth Cyfoedion Digidol i bobl â Covid Hir




GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Mental Health Foundation

Y Sefydliad Iechyd Meddwl

# Cefndir a chyd-destun

## Beth yw'r adnodd hwn?

- Mae'r **adnodd hwn y gellir ei olygu** wedi'i gynllunio i gefnogi unrhyw un sydd â diddordeb mewn sefydlu cymorth cymheiriaid digidol, mewn modd pragmatig ond myfyriol.
- Mae'r templed ymarfer myfyriol **yn un rhan o becyn cymorth dysgu** wedi'i gynllunio i hysbysu, uwchsgilio a chefnogi unrhyw un sy'n dymuno sefydlu prosiectau cymorth cymheiriaid digidol yn eu sefydliadau.
- Ni fwriedir iddo fod yn gofnod llawn na chynhwysfawr, ond yn hytrach yn **aide-mémoire** i gefnogi cynllunio, meddwl a darparu adnoddau ar gyfer grwpiau cymorth cymheiriaid digidol.
- Mae'n defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r **prosiect Cymorth Cymheiriaid Covid Hir**. Sefydlodd y prosiect hwnnw grwpiau cymorth cymheiriaid digidol a fu'n gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ymgysylltu a chefnogi dros 100 o bobl sy'n byw gyda Covid Hir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).[1]
- Felly, mae'n tynnu ar **brofiadau bywyd y grwpiau hyn**, yn defnyddio portreadau gan gyfranogwyr, a gafwyd drwy grwpiau ffocws ac adborth uniongyrchol gan gyfranogwyr, i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n werthfawr iddynt am y math hwn o ymyriad.

# Ar gyfer pwy mae'r adnodd hwn?

- Sefydliadau sydd â diddordeb mewn dylunio **ymyriadau cefnogol ar gyfer pobl sydd â Chyflyrau Iechyd Tymor Hir**.
- Sefydliadau sydd â diddordeb mewn **cefnogi pobl sydd â Covid Hir**.
- Pobl mewn sefydliadau sydd â diddordeb mewn **sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid digidol**.

# Sut dylid defnyddio'r adnodd?

- Mae'r **pecyn cymorth ymarfer myfyriol hwn** wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio ar y cyd â'r gweminar hyfforddi sy'n cyd-fynd ag ef – 'Pecyn Cymorth Hyfforddi Cymorth Digidol – canllaw i hwyluswyr'
- Mae'n cael ei ddefnyddio orau fel rhan o **broses dysgu gweithredol** (cynllunio, gwneud, myfyrio) gan ddefnyddio'r fframwaith ymarfer myfyriol yn ymarferol ac yn systematig, i ysgogi meddwl, cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer grwpiau cymorth cymheiriaid digidol.
- Mae'r adnodd hwn yn rhannu'r meysydd i'w hystyried o fewn arferion cymorth cymheiriaid yn **5 agwedd ddiriaethol**, sy'n cyd-fynd â'r dadansoddiadau a ddisgrifiwyd yn y gweminar hyfforddi. Mae'r rhain yn cynnwys:
    1. Trefnu
    2. Gwybodaeth a dull cyflwyno
    3. Sgiliau
    4. Ôl-drafodaeth
    5. Datrys problemau

1. Roedd y Prosiect Covid Hir yn bartneriaeth rhwng y Sefydliad Iechyd Meddwl a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a oedd yn gweithredu rhwng Hydref 2020 a Hydref 2023.

# Sut olwg sydd ar gymorth cymheiriaid digidol da?

Mae'r adnodd hwn yn amlinellu **tair egwyddor cymorth cymheiriaid digidol da**, a gafodd eu datblygu a'u dilysu drwy'r Prosiect Cymorth Cymheiriaid Covid Hir.

Er bod pob egwyddor yn ddilys **yn ei rhinwedd ei hun**, mae'r adnodd hwn yn eu cyflwyno fel ysgol, sy'n cefnogi meddwl am bob egwyddor yn ei thro ac mewn trefn.

Mae **Cymorth Cymheiriaid Digidol Da** yn galluogi ac yn cefnogi'r egwyddorion hyn yng nghyd-destun grwpiau cymorth cymheiriaid:

1. Dilysiad
2. Cysylltiad
3. Rhoi cyngor



# Dilysiad

## 'Man diogel ar gyfer profiadau bywyd'

- Dilysiad yw *'y teimlad bod pobl eraill yn eich derbyn'* (Geiriadur Caergrawnt, 2024). Mae'n rhan bwysig o'r rhesymau pam y mae pobl yn ymuno â grŵp cymorth cymheiriaid, wrth iddynt geisio sicrwydd nad ydynt ar eu pen eu hunain yn eu profiadau.
- Mae teimlo'n ddilys yn cynnwys:
  - Cael rhywle i fynd sy'n gwneud i chi deimlo'n ddiogel i rannu eich profiadau
  - Teimlo bod pobl eraill yn gwrando arnoch chi
  - Teimlo bod pobl eraill yn cydnabod ac yn derbyn eich profiadau.
- Mae pobl sy'n byw gyda Covid Hir yn aml yn adrodd eu bod yn teimlo **wedi'u hallgáu o fywyd teuluol a gwaith** ac wedi'u gwthio i'r cyrion gan y gymdeithas ehangach.
- Maen nhw'n disgrifio teimlo'n 'anghofiedig' gan y grwpiau economaidd a chymdeithasol yr oedden nhw'n perthyn iddynt o'r blaen a bod byw gyda Covid Hir yn gwneud iddyn nhw deimlo **nad oes neb yn eu gweld**, a'u bod yn aml wedi'u hamgylchynu gan bobl nad ydyn nhw'n deall eu profiad bywyd.
- Yn y Grŵp Cymorth Cymheiriaid Covid Hir, roedd y cyfranogwyr **yn aml yn mynegi eu cefnogaeth i'w gilydd ar lafar**, gan ddilysu teimladau a phrofiadau ei gilydd:

**"Rwy'n teimlo'n flin nad wyf yr un person ag oeddwn i ddwy flynedd yn ôl. Rwyf wedi colli fy ngwaith ac wedi gorfod symud i fyngalo. Nid oes neb yn deall oni bai eu bod wedi bod trwyddo....".**

**"Rydym ni'n deall... rydym yn dy ddeall di".**

# RHAN 1

## Sut mae **DILYSIAD** yn digwydd yng nghyd-destun cymorth cymheiriaid digidol?



| Meysydd i'w hystyried | Ystyriaethau | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Trefnu** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Gwneud yn siŵr bod gan bobl yr holl offer sydd eu hangen arnynt i ymuno a chymryd rhan (TG, hyfforddiant, cymorth)<br>• Sicrhau bod gan bobl fynediad dibynadwy at y byd rhithwir (dolenni, manylion ymuno)<br>• Egluro diben y grŵp a sefydlu cytundeb grŵp a threfniadau ar gyfer ailedrych ar hyn<br>• Penderfynu | • Sut mae pobl yn cael gwybod am eich grŵp?<br>• Beth yw'r trefniadau ar gyfer cael mynediad at y grŵp?<br>• Pa adnoddau sydd eu hangen ar bobl i gael mynediad?<br>• Sut mae cytundebau'r grŵp yn cael eu datblygu a'u rhannu?<br>• Sut mae pryderon diogelu yn cael eu codi a'u symud ymlaen? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Gwybodaeth a dull cyflwyno** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Hyfforddiant i hwyluswyr ar sefydlu grwpiau<br>• Hyfforddiant i hwyluswyr ar gynnwys cydgynhyrchu, cyfranogiad ac adborth wrth gynllunio'r grŵp a'i ddarparu<br>• Myfyrio ar y model cymorth cymheiriaid digidol<br>• Model wedi'i hwyluso gan gymheiriaid, model wedi'i gymedroli gan gymheiriaid, neu fodel hybrid | • Pa wybodaeth a dealltwriaeth o sefydlu grwpiau cymheiriaid digidol sydd eu hangen ar hwyluswyr?<br>• A fydd eich grŵp yn cael ei hwyluso gan gymheiriaid sydd â phrofiad bywyd (wedi'i hwyluso gan gymheiriaid) neu gan hwylusydd allanol (cymedroli gan gymheiriaid)?<br>• Beth yw manteision ac anfanteision pob un o'r modelau hyn ar gyfer cynllunio a datblygu eich grŵp?<br>• Sut allai model hybrid weithio? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Sgiliau** | **Gallai sgiliau gynnwys:**<br>• Sgiliau Digidol a Thechnolegol<br>• Cefnogi datblygiad diwylliant grŵp ar-lein<br>• Strwythur a chadw amser | • Pa sgiliau ac offer sydd eu hangen ar hwyluswyr grŵp er mwyn sefydlu'r grŵp?<br>• Sut mae aelodau newydd yn cael eu croesawu a'u hintegreiddio? | [Teipiwch eich syniadau yma] |

| Meysydd i'w hystyried | Ystyriaethau | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Ôl-drafodaeth** | **Gallai'r mecanweithiau gynnwys:**<br>• Trefniadau ar gyfer cefnogi hwyluswyr cyn, yn ystod, ac ar ôl cyflwyno'r grŵp cymorth cymheiriaid | • Sut mae cynllunio'r rhaglen yn cefnogi ac yn annog hwyluswyr i hunan-fyfyrio?<br>• Pa strwythurau sy'n bodoli i gefnogi hwyluswyr ar bob cam o'r cymorth cymheiriaid? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Datrys problemau** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Rheoli disgwyliadau'r cyfranogwyr<br>• Delio â diffyg ymgysylltu | • Pa systemau a phrosesau sy'n bodoli ar gyfer delio â heriau?<br>• Beth sy'n digwydd os nad yw'r hwylusydd/hwyluswyr yn gallu bod yn bresennol?<br>• Sut fydd problemau/heriau yn cael eu datrys? | [Teipiwch eich syniadau yma] |

# Cysylltiad

## 'Cefnogi pobl i rannu eu profiadau"

- Cysylltiad yw'r weithred o ymuno ag eraill neu gael eraill yn ymuno â chi (Geiriadur Caergrawnt, 2024) ac mae'n elfen bwysig o gymorth cymheiriaid ac yn esbonio pam mae pobl **yn parhau i ddod** i grŵp cymorth cymheiriaid
- Pan fydd pobl yn teimlo **cysylltiadau gwirioneddol** ag eraill, maent yn fwy tebygol o fuddsoddi mewn **cefnogi a chynnal y grŵp**
- Mae cysylltu ag eraill yn golygu:
  - Gallu **rhannu** eich profiadau
  - Gallu **gwrando** ar brofiadau eraill
  - Gallu **empatheiddio** a **chydymdeimlo**
  - Cynnig **cefnogaeth ac anogaeth** wrth drafod profiadau bywyd pobl
  - Teimlo **buddion amser real** cymorth cymheiriaid
- Yn y **Grŵp Cymorth Covid Hir**, roedd y cyfranogwyr yn aml yn cydnabod ac yn mynegi eu cysylltiadau â'i gilydd:

**"Rydym ni gyd yn yr un storm. Nid ydym yn yr un cwch, ond mi ydym yn yr un storm".**

# RHAN 2

## Sut mae **CYSYLLTIAD** yn digwydd yng nghyd-destun cymorth cymheiriaid digidol?



| Nodweddion cymorth cymheiriaid | Pwyntiau i'w hystyried | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Trefnu** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Sicrhau bod pobl yn deall sut y gallant gysylltu a chyfathrebu | • Trwy ba ddulliau mae pobl yn cysylltu? (Teams, e-bost, WhatsApp, platfformau cyfryngau cymdeithasol?)<br>• Pa drefniadau sydd ar waith i hwyluso pobl i gysylltu rhwng grwpiau? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Sgiliau** | **Gallai sgiliau gynnwys:**<br>• Cefnogi cymryd twrn<br>• Cynnwys pobl mewn sgyrsiau<br>• Cadw at amser<br>• Strwythuro'r sesiwn cymorth<br>• Rheoli dynameg y grŵp | • Pa sgiliau sydd eu hagen ar hwyluswyr i gefnogi pobl i gysylltu?<br>• Sut mae'r rhain yn cael eu nodi? Sut mae bylchau'n cael eu nodi?<br>• Sut mae datblygu sgiliau hwyluswyr yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant a mecanweithiau cymorth ar gyfer eich grŵp? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Gwybodaeth a dull cyflwyno** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Hyfforddiant i hwyluswyr cymheiriaid ar broses a dynameg y grŵp<br>• Wedi'i hwyluso gan gymheiriaid neu ei gymedroli gan gymheiriaid<br>• Prosesau ar gyfer monitro presenoldeb ac ymgysylltiad y grŵp | • Pa hyfforddiant mae hwyluswyr yn ei gael i ddeall a rheoli dynameg y grŵp?<br>• Pa fesurau sy'n bodoli i bennu pa mor effeithiol mae pobl yn cysylltu?<br>• Sut mae llwyddiant y grŵp yn cael ei fesur? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Ôl-drafodaeth** | **Gallai'r mecanweithiau gynnwys:**<br>• Ffyrdd o geisio adborth gan gyfranogwyr<br>• Cynnwys mecanweithiau hunan-fyfyrio ar gyfer hwyluswyr<br>• Cymorth cymheiriaid ar gyfer hwyluswyr | • Sut y gofynnir am adborth gan y cyfranogwyr?<br>• Sut mae adborth yn cael ei ddefnyddio gan hwyluswyr a gweithredwyr rhaglen?<br>• Sut mae cynllunio'r rhaglen yn cefnogi ac yn annog hwyluswyr i hunan-fyfyrio?<br>• Pa strwythurau sy'n bodoli i gefnogi hwyluswyr ar bob cam o'r cymorth cymheiriaid? | [Teipiwch eich syniadau yma] |

| Nodweddion cymorth cymheiriaid | Pwyntiau i'w hystyried | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Datrys problemau** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Delio ag anghydweld/gwahaniaethau barn/profiadau<br>• Ymateb i rywun sy'n cymryd llawer o'r amser siarad<br>• Gwrthdaro rhwng personoliaethau/ safbwyntiau (e.e. rhywun sydd eisiau 'meddwl yn gadarnhaol' yn erbyn rhywun sy'n edrych ar eu profiad personol yn fwy pesimistaidd) | • Pa wybodaeth a sgiliau allai fod eu hangen ar hwyluswyr i ddelio â heriau o fewn y grŵp?<br>• Pa strwythurau, mecanweithiau a phrosesau sy'n bodoli i gefnogi hwyluswyr ac annog diwylliant o fyfyrio a datblygu? | [Teipiwch eich syniadau yma] |

# Rhoi cyngor

### 'Y cyngor mae pobl yn ei roi a'i dderbyn o fewn y grŵp'

- Mae **rhoi a derbyn cyngor** yng nghyd-destun cymorth cymheiriaid yn nodwedd o sesiynau nifer o grwpiau.
- **Mae cyngor yn aml yn oddrychol ac yn cyfeirio at** farn y mae rhywun yn ei gynnig am yr hyn y dylech ei wneud neu sut y dylech weithredu mewn sefyllfa (Geiriadur Caergrawnt, 2024)
- Gall rhoi cyngor **gael ei werthfawrogi gan rai cymheiriaid, ond nid eraill**, ac mae angen ei hwyluso'n fedrus i sicrhau ei fod wedi'i osod yn briodol mewn grŵp cymorth cymheiriaid
- Gall cyngor gael ei dderbyn yn dda **gan gymheiriaid, gan dybio bod ymddiriedaeth wedi'i meithrin rhwng cyfranogwyr a'i fod yn cael ei ragflaenu gan y ddwy egwyddor flaenorol** sef *dilysiad a chysylltiad.*
- Yn y Grŵp Cymorth Cymheiriaid Covid Hir, roedd cyngor yn cael ei roi weithiau mewn perthynas â chymorth emosiynol ac ymarferol:

**"Dim meddyliau negyddol... os na allwch chi droi meddwl negyddol yn feddwl cadarnhaol, gwrthodwch y meddwl negyddol".**



# RHAN 3

## Sut mae **RHOI CYNGOR** yn digwydd yng nghyd-destun cymorth cymheiriaid digidol?



| Nodweddion cymorth cymheiriaid | Pwyntiau i'w hystyried | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Trefnu** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Llunio cytundeb grŵp sy'n manylu ar yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y grŵp<br>• Meithrin ymddiriedaeth rhwng y cyfranogwyr a'r hwylusydd | • Beth yw rheolau'r grŵp ar gyfer rhoi cyngor?<br>• Sut mae ymddiriedaeth yn cael ei feithrin o fewn y grŵp?<br>• Sut mae'r cyfranogwyr yn teimlo am roi a derbyn cyngor gan ei gilydd?<br>• Sut mae'r cyfranogwyr yn teimlo am dderbyn cyngor gan hwylusydd/hwyluswyr y grŵp? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Sgiliau** | **Gallai sgiliau gynnwys:**<br>• Gwirio bod y camau *dilysiad* a *chysylltiad* wedi'u harchwilio'n ddigonol cyn i'r cam rhoi cyngor ddigwydd<br>• Cymedroli rhoi cyngor fel ei fod yn ffurfio rhan o drafod opsiynau yn hytrach na dod yn gyfeiriadol | • Sut mae rhoi cyngor yn cael ei gyflwyno yn y sesiwn?<br>• Sut mae'n cael ei reoli gan yr hwylusydd/hwyluswyr fel rhan o gyfres o ffyrdd o gefnogi ei gilydd?<br>• Sut allai'r hwylusydd ddod â rhoi cyngor i ben, os nad yw'n cael ei werthfawrogi gan un neu fwy aelod o'r grŵp? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Gwybodaeth a dull cyflwyno** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Sut mae rhoi cyngor yn cael ei osod o fewn cwmpas cymorth cymheiriaid? | • A yw'r grŵp yn cael ei hwyluso gan gymheiriaid neu ei gymedroli gan gymheiriaid?<br>• Pa ddull cyflwyno mae'r hwylusydd yn ei ddefnyddio gyda'r grŵp?<br>• A oes gan yr hwylusydd brofiad bywyd o'r cyflyrau sy'n cael eu trafod? | [Teipiwch eich syniadau yma] |

| Nodweddion cymorth cymheiriaid | Pwyntiau i'w hystyried | Cwestiynau myfyriol | Nodiadau/myfyrdodau |
|---|---|---|---|
| **Ôl-drafodaeth** | **Gallai'r mecanweithiau gynnwys:**<br>• Mecanweithiau hunan-fyfyrio ar gyfer hwyluswyr<br>• Cynnig 'pwyntiau gwirio' rheolaidd yn ystod cymorth cymheiriaid fel bod y grŵp yn llywio pa ymyriadau sy'n cael eu cynnwys mewn sesiynau<br>• Cynnwys ffyrdd gwahanol i'r cyfranogwyr roi adborth ar eu profiad | • Beth mae cyfranogwyr yn ei ddweud am y cyngor a roddir yn y sesiynau?<br>• Beth mae hwyluswyr yn ei ddweud am y cyngor a roddir yn y sesiynau? | [Teipiwch eich syniadau yma] |
| **Datrys problemau** | **Gallai'r ystyriaethau gynnwys:**<br>• Ymyrryd i gymedroli rhoi cyngor, yn enwedig os nad yw'n cael ei werthfawrogi gan un neu fwy aelod o'r grŵp | • Sut mae hwyluswyr yn gwirio amlygrwydd rhoi cyngor mewn sesiwn cymorth cymheiriaid?<br>• Sut mae hwyluswyr yn ymyrryd mewn rhoi cyngor, os bernir bod angen hynny | [Teipiwch eich syniadau yma] |

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Mental Health Foundation

Y Sefydliad Iechyd Meddwl

**mentalhealth.org.uk**


Mental Health Foundation
@mentalhealthfoundation
@MentalHealth

Llundain:
**Mental Health Foundation**
**Studio 2**
**197 Long Lane**
**London SE1 4PD**

Glasgow:
**Mental Health Foundation**
**2nd Floor**
**Moncrieff House**
**69 West Nile Street**
**Glasgow G1 2QB**

Caerdydd:
**Mental Health Foundation**
**Suite 7, Floor 9**
**Brunel House**
**2 Fitzalan Road**
**Cardiff CF24 0EB**

Belfast:
**Mental Health Foundation**
**5th Floor**
**14 College Square North**
**Belfast BT1 6AS**



Rhif Elusen Gofrestredig Lloegr 801130, yr Alban SC039714.